



Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru

Canllaw Ymarfer

Gweithio gyda Phobl sy'n dangos Cydymffurfiaeth Gudd

Fersiwn 2, Hydref 2020

1.0. **Cyflwyniad**

- 1.1. Mae cydymffurfiaeth cudd yn cynnwys rhieni a gofalwyr sydd yn ymddangos fel bod yn cydweithredu gyda gweithwyr proffesiynol er mwyn tawelu pryderon a stopio ymgysylltiad proffesiynol.
- 1.2. Mae adolygiadau achos a gyhoeddwyd yn amlygu pwysigrwydd ymarferwyr allu adnabod cydymffurfiaeth cudd, gan sefydlu'r ffeithiau a chasglu tystiolaeth ynghylch beth sydd wirioneddol yn digwydd ym mywyd y plentyn.
- 1.3. Mae'r canllaw ymarfer Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn cefnogi Ymarferwyr Aml Asiantaeth i adnabod ac ymateb i achosion lle mae rhieni/ gofalwyr o bosib yn dangos cydymffurfiaeth cudd.
- 1.4. Mae Cydymffurfiaeth Cudd yn nodwedd gyffredin o fewn Adolygiadau Ymarfer plant Gogledd Cymru. (Gweler atodiad 1 – NSPCC Dysgu o'r Adolygiadau Achos 2019)

2.0. **Gweithio gyda Rheini sy'n dangos Cydymffurfiaeth Cudd**

- 2.1. Mae cydymffurfiaeth cudd, ymwrthedd a gwadu yn nodweddion cyffredin i deuluoedd sydd ag anghenion cymorth buan. Gall ymwrthedd amlwg fod o ganlyniad i ofn, stigma, cywilydd, gwadiad, amwysedd, neu ddiffyg hyder yn y rhieni yn eu gallu i newid neu ddiffyg cipolwg i'w gallu rhianta a'r effaith ar eu plant.
- 2.2. Gall ddangosyddion o gydymffurfiaeth cudd gynnwys:
 - Diffyg cynnydd mesuradwy mewn adolygiadau, er bod ymdrech amlwg a chydweithrediad gan rieni;
 - Cytundeb gan y rheini i newid ond ddim yn cwblhau'r camau gweithredu a gytunwyd i'w cyflawni;
 - Newid yn digwydd oherwydd ymdrechion gan asiantaethau eraill yn hytrach na gan y rhieni;
 - Anghysondeb yn y meysydd lle mae newid yn cael ei gyflawni gyda rhieni yn dewis gweithio gyda rhai gweithwyr proffesiynol ond dim eraill, neu ar rai camau gweithredu a ddim rhai eraill; safbwyntiau plant yn wahanol iawn i rai'r rhieni.
 - Edrych ar apwyntiadau rheolaidd sy'n cael eu methu;
 - Cydweithrediad a chydymffurfiaeth sy'n cael ei orliwio;
 - Ymdrechion i leihau pryderon gweithwyr proffesiynol neu wadu effaith o brofiad byw'r plentyn;
 - Ymddygiad ymosodol neu fygythiol pan maent yn cael eu herio;

- Hawliau heb eu cyfiawnhau o'r cynnydd sy'n cael ei wneud neu gamau gweithredu a gyflawnir, a gwrthod trafod prif faterion wrth ganolbwyntio ar eraill sydd â llai neu dim effaith ar y plentyn.
- 2.3. Efallai bydd rhai rhieni yn gwrthod ymglymiad gweithwyr proffesiynol, yn hytrach na gwrthod newid ei hun, yn arbennig os ydynt yn teimlo bod gweithwyr proffesiynol yn ymarfer eu pŵer drostynt yn hytrach na gweithio gyda hwy mewn modd cefnogol. Rhowch ystyriaeth i berthynas broffesiynol gyda rhieni a sicrhau bod rhieni yn teimlo eu bod yn cael eu parchu ac osgoi iaith feirniadol neu honiadau ynghylch eu hymddygiad neu ysgogiad.
 - 2.4. Byddwch yn wylidwrus o gyd-dwylo gyda rhieni. Pan fydd rhieni yn ymddangos eu bod yn cydweithio, parhewch i fod yn agored i glywed barn y plentyn drwy'r broses a bob amser mesur pendantrwydd rhieni os oes datblygiad yn erbyn profiad byw y plentyn. Ewch i weld a siarad gyda'r plentyn yn rheolaidd.
 - 2.5. Gwnewch yn siŵr bod **tystiolaeth** o welliant drwy ddefnyddio adnoddau asesu a peidiwch â dibynnu'n unig ar safbwyntiau'r rhieni i fesur llwyddiant. Croeswiro yn erbyn dystiolaeth, cynnal 'ansicrwydd parchus' a gwirio beth mae'r rhieni yn ei ddweud wrth weithwyr proffesiynol eraill.
 - 2.6. Heb dystiolaeth dda, peidiwch â bod yn or-obeithiol ynghylch y cynnydd. Rhannwch wybodaeth gyda gweithwyr proffesiynol yn rheolaidd a gwirio eu safbwyntiau ar y cynnydd a wneir i herio eich tybiaethau.
 - 2.7. Herio eich dull gyda'r teulu drwy oruchwyliaeth. Gyda'ch goruchwyliwr, tybiwch ynghylch y problemau sylfaenol nad yw'r rhieni eisiau eu wynebu o bosib, ystyried dystiolaeth yn ofalus ac adlewyrchu ar ansawdd ymgysylltiad rhieni ac ysgogiad i newid pan nad yw cynnydd yn cael ei gyflawni. Efallai fydd y goruchwyliwr eisiau uwchgyfeirio pryderon i'w rheolwyr neu drefnu cyfarfod aml-asiantaeth i drafod.
 - 2.8. Pan mae rhieni yn anghyfeillgar neu'n ymosodol, ystyriwch y perygl i'r gweithiwr a thrafod dan oruchwyliaeth y strategaethau sydd eu hangen arnoch i oresgyn hyn. Ail-werthuso'r risg i'r gweithiwr a'r plentyn yn rheolaidd.

Atodiad 1

NSPCC Dysgu o Adolygiadau Achos 2019

1. Materion Allweddol

Ymddygiad rhieni tuag at weithwyr proffesiynol

Gall rhieni a gofalwyr leihau pryderon a godir gan ymarferwyr neu wadu bod unrhyw beryglon i'r plant.

Gall rhieni a gofalwyr ddatblygu perthynas dda gyda rhai gweithwyr proffesiynol ond yn beirniadu neu anwybyddu eraill. Gall hyn symud sylw i ffwrdd o ymddygiad y rhieni eu hunain.

Gall rhieni a gofalwyr sy'n dangos cydymffurfiaeth gudd ddylanwadu gweithwyr proffesiynol a sefyllfaoedd i osgoi ymgysylltiad neu ymyrraeth.

Efallai bydd rhai rhieni neu ofalwyr yn dweud y pethau cywir neu'n ymgysylltu 'digon' i fodloni'r ymarferwyr.

Ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol

Mae rhai rhieni a gofalwyr yn methu neu'n canslo apwyntiadau'n rheolaidd, ac yn addo aildrefnu ond ddim yn mynychu.

Gobaith

Weithiau mae ymarferwyr yn rhy obeithiol ynghylch cynnydd rhieni a gofalwyr, a'r gallu i ofalu am y plentyn neu eu haddewidion i ymgysylltu â'r gwasanaethau.

Efallai bydd ymarferwyr yn rhesymoli ymddygiad rhieni, er enghraifft yn gweld methiant i ymgysylltu â gwasanaethau fel 'dewis rhiant' yn hytrach na pheidio â chydymffurfio.

Roedd ymarferwyr yn yr adolygiadau achosion hyn yn dueddol o dderbyn gwybodaeth gan rhieni a gofalwyr fel ffaith heb ddangos unrhyw ymyrraeth broffesiynol ac ymchwilio ymhellach.

Diffyg gweithredu

Yn rhai o'r adolygiadau achos hyn, roedd cydymffurfiaeth gudd wedi'i amau neu ei drafod ond ni roddwyd unrhyw gamau gweithredu mewn lle i fynd i'r afael â hyn.

2. Dysgu o Ymarfer Gwell

Adnabod cydymffurfiaeth gudd

Dylai asiantaethau diogelu lleol sicrhau bod ymarferwyr wedi cael eu hyfforddi i adnabod ac ymateb i gydymffurfiaeth gudd.

Mae ymarferwyr angen parhau i fod yn ymwybodol bod cydymffurfiaeth gudd yn gallu digwydd.

Sefydlu ffeithiau a chasglu tystiolaeth

Dylai ymarferwyr ddangos diddordeb proffesiynol wrth weithio gyda theuluoedd a pheidio â derbyn gwybodaeth gan rieni a gofalwyr ar yr olwg gyntaf heb ymchwilio ymhellach.

Mae ymarferwyr angen sefydlu'r ffeithiau a chasglu tystiolaeth ynghylch beth sy'n digwydd o ddifrif neu sydd wedi ei gyflawni.

Dylai ymarferwyr ganolbwyntio ar brofiad byw'r plentyn yn hytrach na gweithredoedd y rhieni a gofalwyr.

Ymweliadau dirybudd

I osgoi gweld beth mae'r rhieni a gofalwyr eisiau ei gyflwyno'n unig, dylai gweithwyr cymdeithasol ymweld yn ddirybudd yn ogystal ag ymweliadau statudol sydd wedi eu trefnu.